



## Gair gan Delwyn

### "Epic"



Mae gan bob cenhedlaeth eu geiriau arbennig. Fel un o blant y 60au roedd "groovy, fab, swinging a dodgy" yn eiriau cyfarwydd bob dydd, ond wrth gyrraedd y 70au, hoff air ein criw ni fechgyn yn Ysgol Rhydfelen oedd "Epic". Roedd popeth da yn "epic". Pam epic? Dyn a wŷyr. Fel arfer roedd y gair yn cael ei gysylltu a darnau hir o farddoniaeth arwrol hanesyddol neu ffilmiau Beiblaidd, ffilmiau Epic Hollywood! Nawr, dwi'n amau'n fawr a fydde neb yn disgrifio eleni fel blwyddyn epic, ond heb os mae 'di bod yn flwyddyn "Feiblaidd", y math o flwyddyn fydde wedi ysbrydoli awduron yr Hen Destament.

Dyna'r llifogydd i ddechrau, wi'n siŵr bo nifer o drigolion Pontypridd a Ffynnon Taf, a sawl cwmwd arall yn y cymoedd, wedi gallu dychmygu gweld Arch Noah'n hwylio heibio'r ffenest gefn, ffenest gefn lan lofft mewn sawl lle!!! Ac yna daeth y Covid- y pandemig- y pla cyfoes, a dyna ni nôl yng nghyfnod Moses a'r 10 Pla yn creu dinistr i iechyd ac economi ymherodraeth fawr yr Aifft. Ac yn dilyn y feirws gudd biolegol eleni, feirws gudd arall, er ddim mor guddiedig chwaith, feirws/pandemig hiliaeth. Yn ystod 10 pla'r Aifft fe gododd Moses ei lais gan ofyn am ryddid i'w bobl, rhyddid rhag caethwasiaeth, rhyddid rhag ormes grym, neges Moses oedd "Hebrew Lives Matter". Wedi'r 10<sup>fed</sup> pla fe dderbyniodd yr Hebraid eu rhyddid. Fe dderbyniodd y caethweision du eu croen yng ngwledydd Prydain ac America eu rhyddid ym 1833 a 1865, ac ar yr wyneb mi ro'n nhw'n rhydd, ond o dan yr wyneb roedd yr annhegwch a'r anghyfiawnder oedd yn arwain at dlodi affwysol, diffyg cyfleoedd ac anobaith dal yno, ac yn creu anniddigrwydd mawr, ac ma'r anniddigrwydd yna wedi brigo yn ystod yr wythnos diwetha' ma, a ma' gyda fi deimlad bod mwy i ddod, a bydd y geiriau "Black Lives Matter" yn dod yn fwy-fwy cyfarwydd i ni.

Geiriau oedd cyfrwng storiwyr yr Hen Destament, felly hefyd y Testament Newydd, geiriau oedd yn creu darluniau, a does dim enghreifftiau gwell o hynny na damhegion yr Iesu, a dim dameg well na'r Samariad Trugarog. A'r wythnos ddiwethaf fe lwyddodd ffotograffydd yn Llundain i adrodd y stori mewn un llun. Yn



Y llun o Patrick Hutchinson ar y gwefannau newyddion

ystod protest dreisgar asgell dde, fe anafwyd dyn croenwyn, dyn mawr trwm, rhy drwm i'r rhan fwyaf o bobl ei gario, ac roedd y rhan fwyaf o'i gyfeillion wedi mynd heibio iddo er mwyn cael rhoi eu sylw i heddweision Westminster. Pwy gododd a'i gario i ddiogelwch? Gwr ifanc cyhyrog croenddu, y person olaf bydde'r dyn croenwyn hwnnw wedi disgwyl (neu eisiau?) i wneud y fath beth. Dwi'n amau a dalodd y gwr ifanc croenddu am lety dros nos i'r anafedig, fel gwnaeth y Samariad gwreiddiol, ond roedd

y weithred o ofal wedi'i chyflawni, ac am rai eiliadau roedd cariad yn drech na chasineb. Byddai awdur y ddameg wreiddiol siŵr o fod o blaid, ac fel yr awdur gwreiddiol roedd y gwr ifanc croenddu wedi chwalu ffiniau. Ond beth am ddiwedd yr hanes? Wel, mae'r gwr croenddu wedi gwneud ei gymwynas, wedi caru'i elyn, wedi cyflawni'r weithred ryfeddol annisgwyl. Ma' pennod nesa'r stori yn nwylo'r dyn gwyn. Beth fydd ei ymateb e? A beth fydd ymateb ei gyfeillion? Geiriau ola'r Iesu wedi adrodd y ddameg oedd "Dos a gwna dithau yr un modd". A dyna'r sialens i'r dyn croenwyn yn y llun, ac i'r gymdeithas ehangach. A phryd ma' angen gweithredu er mwyn newid pethe, ac ar bwy ma'r cyfrifoldeb i wneud? Ga'i adael i Gyn Arlywydd yr Amerig, Barack Obama, ateb y cwestiwn hwnnw, "Change will not come if we wait for some other person or some other time. We are the ones we've been waiting for. We are the change we seek."

Dwi'n meddwl bydde awdur y ddameg yn cydweld, a phe bai modd dechrau cael gwared ar bandemig hiliaeth erbyn diwedd y flwyddyn, yna byddai 2020 wir yn flwyddyn Epic.

*Delwyn*

# Bore arddangos trysorau



Trysor oedd y thema unwaith eto ar gyfer yr Ysgol Sul yr wythnos hon a'r dasg oedd i'r plant greu bocs o'u trysorau nhw (syniad Delwyn – diolch!). Ac fe gawsom sesiwn hyfryd ar Zoom gyda phawb yn eu tro yn dangos beth oedd yn eu casgliad. Roedd y trysorau'n amrywiol iawn e.e. lluniau o'r teulu, teganau, llyfrau, arian, cofroddion, a chath!

Cofiwch bod croeso i unrhyw un alw i mewn i'n gweld ni ar fore Sul am 10.30. Mae'r manylion cysylltu yr un fath bob tro:

<https://us04web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNDD3M3ZCUT09>

ID: 714 6634 3537 **Cyfrinair:** Bethlehem

**Heulwen Jones** [heulwen@btinternet.com](mailto:heulwen@btinternet.com) 07779 360614

## Hiwmor o'r Cwrdd

Yr hen batriarch ar ei wely angau ac yn gofyn i'w gyfreithiwr ac i ddyn y Dreth Incwm ddod at ei wely, un bob ochr iddo. Gafaelodd yn eu dwylo a gwenu'n wan. "Pam ni'n dau?" meddai'r cyfreithiwr. "Bu'r Iesu farw rhwng dau leidr ac felly finnau", oedd yr ateb.



Cyhoeddwr: Bydd bedydd yn y fedyddfau sydd ar y dde ac ar y chwith pnawn ma. Bedyddir y plant y ddau ben.



Bydd cyfarfod o'r Mamau am bump. Unrhyw un sydd am fod yn fam ewch i weld ficer yn ei swyddfa.



Mae mwy o siopau yn cael yr hawl i agor. Yn eu plith, y siopau llyfrau. Eisoes mae'r siopau hynny yn gweld cyfle am werthiant trwy hysbysebu llyfrau sy'n ymwneud â thadau neu berthynas tadau ag aelodau eraill o'r teulu, yn awmrywio o Atticus Finch yn 'To Kill a Mockingbird' (Harper Lee) i Jack Torrance yn 'The Shining' (Stephen King). Mae Atticus yn ddelfryd o dad, yn esiampl berffaith o rinwedd a gonestrwydd tra bod Torrance yn ei ynfydrwydd yn cael ei wthio i lofruddio ei deulu. Tad di-enw sydd yn 'The Road' (Cormac McCarthy) ond fe ddwedir amdano ei fod y tad mwyaf teyrngar mewn llenyddiaeth.

Cymeriadau dychmygol yw'r rhain. Cymeriad o gig a gwaed oedd tad Sonora Smart Dodd. Dynes o Washington oedd hi a gollodd ei mam yn ifanc. Ei thad a'i magodd ac i ddangos ei gwerthfawrogiad fe lansiodd Sul y Tadau er mwyn iddo wybod pa mor ddiolchgar oedd hi am ei ofal.

Cymharwch hynny â phrofiad plentyn arall: "yn blentyn, wyddwn i ddim beth oedd cariad tad. Yn sicr, wnaeth e ddim gadael cymynrodd (legacy) o gariad ar yr aelwyd. Ond wedi i mi ddod yn Gristion fe wnes i gymodi â Dad. Yn wir, fe wnaeth Duw ganiatáu i mi ofalu amdano yn ei flynyddoedd ola'. Ond fu hynny fawr o help pan ddeuthum yn dad fy hun oherwydd roeddwn i'n teimlo nad oeddwn wedi gallu fy mharatoi fy hun i'r fath gyfrifoldeb."

Ydych chi'n cael anhawster wrth ddisgrifio Duw yn dad, yn hytrach nag yn fam? Crist ei hun sy'n sôn am Dduw y tad. Pe bae gwell ymadrodd i'w gael na 'thad' oni fyddai Crist wedi defnyddio'r ymadrodd hwnnw? Nid dweud y mae Duw ei fod 'fel tad' ond mai ef yw'r Tad. Mae'r Beibl yn disgrifio nodweddion tad o fod yn un sy'n ein caru ac yn ffyddlon i'w blant. Mae hyn uwchlaw genynnau. Ac mae pob tad daearol yn sylweddoli ei fod yn fyr o safonau'r Tad nefol.

Dwedodd tad wrth ei blentyn am neidio i lawr o ben y wal. "Wna i dy ddal di." Neidiodd y plentyn. Troi ei gefn wnaeth y tad a dweud wrth y bychan yn ei ddagrau "dyna wers i ti beidio ag ymddiried yng ngair unrhyw un." Am dad!

Defnyddiai Iesu y term Aramaeg 'abba', 'dadi'. Eto, mae rhywbeth od, grotesg hyd yn oed, i ni ddefnyddio'r term heddiw. Plant i Dduw ydym ni; yn ymddiried yn hyderus yn y tad ac yn ufuddhau iddo. Yr ydym yn frodyr a chwiorydd i'n gilydd, yn y cartref mwyaf distadl, yr eglwys mwyaf diymffrost a ninnau y personau mwyaf gostyngedig. All y tad ddim newid lliw llygaid ei blant ond fe all oleuo'r llygaid i weld y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

Darlleniad: **Epistol cyntaf Ioan, pennod 3** – "Gwelwch pa fath gariad y mae'r Tad wedi ei ddangos tuag atom ..." hyd at adnod 18 " ... gadewch i ni garu, nid ar air nac ar dafod ond mewn gweithred a gwirionedd."





# DAU DRO CYNTAF!



Y diaconiaid ddaeth ynghyd ar gyfer eu cyfarfod chwarterol – y tro hwn, am y tro cyntaf erioed - o hirbell...

... ond, hefyd daeth un ymwelydd bach i'n plith am y tro cyntaf! Mae Nia i'w gweld ar lin ei thad yn y rhes uchaf! I haneswyr y dyfodol, bydd Nia wedi bod yn rhan o dro hanesyddol yn hanes Bethlehem!

## Y Cwrdd Diaconiaid – ar-lein

Rhodri-Gwynn Jones

A hithau'n flwyddyn naid eleni, Mehefin y 15fed oedd y 167fed dydd o'r flwyddyn, sy'n gadael 199 diwrnod tan ddiwedd y flwyddyn!

Diwrnod nodedig yn hanes Laszlo Biro, oherwydd yn 1938 sicrhaodd batent ym Mhrydain ar gyfer y "biro", a lle buasai pob Ysgrifennydd gwerth ei halen heb honno dywedwch? Yr un mor nodedig i rieni Wilbert Awdry, oherwydd ganed y clerigwr, ac awdur cyfres "Tomos y Tanc" ar y dydd hwn yn 1911, ac yn ddiweddarach, yn 1964, eto ar yr un dydd, ganed un o gyn-reolwyr clwb peldroed Abertawe (2012 – 2014), Michael Laudrup. Ac yn 1951 y ganed y datgeinydd gorau erioed o'n hanthem Genedlaethol, John Redwood, aelod seneddol Wokingham, ac un o gyn-Ysgrifenyddion Gwladol Cymru (1993 – 1995).

Ond eleni, ar y 15fed o Fehefin, am 11:00 o'r gloch y bore, cynhaliwyd y Cwrdd Diaconiaid rhithiol cyntaf yn hanes Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

Beth, tybed, fyddai ymateb sylfaenwyr yr achos yn 1832 pe gwyddent bod y diaconiaid mewn lleoliadau gwahanol bob un ohonynt, gyda'r gallu i gyd-drafod materion yn ymwneud a lles yr aelodau a'r adeilad.

Rhyw orig o gyfarfod a gynhaliwyd, a hynny er sicrhau ein bod cydnabod yr ymdrechion a'r diffygion yn ein hymwneud a'r aelodaeth yn ystod cyfnod y "Gofid Mawr", ac hefyd i geisio hel meddyliau at y cyfnod "Ôl-Ofid" pan fyddwn yn gallu ail-gydiad yn ein addoli a'n cymdeithasu fel un teulu cyfan unwaith yn rhagor.

Nodwyd bod cryn ddefnydd o'r gwefannau cymdeithasol wedi ei wneud eisoes, i gynnal oedfaon ac Ysgol Sul, paratoi "Myfyrdod" wythnosol ac i rannu gwybodaeth gyffredinol. Mynegwyd gwerthfawrogiad o gyfraniad pawb yn ddiwahân i'r datblygiadau diweddaraf, ac yn arbennig felly gwaith Wyn Jones fel y technegydd a sicrhaodd fod y cyfan yn cael ei asio yn gelfydd.

Yn ogystal cytunwyd bod cyfraniad Ifan Roberts, yn sicrhau arlwy wythnosol ar ffurf y cylchgrawn "Gair bach Bethlehem" wedi bod yn hynod fendithiol a diddorol dros gyfnod y meudwyo.

(Yn ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol, holwyd a fyddai'n bosibl trefnu "Cymanfa Ganu" rithiol cyn i'r haf ddiplannu!)

Nododd Delwyn ei fod yntau wedi ceisio cysylltu yn unigol a chymaint o'r aelodaeth a phosibl, un a'i dros y ffôn, neu ar y we, er sicrhau gwybodaeth am unrhyw bryder neu angen. [Da deall bod Delwyn ei hun yn gwella yn araf bach o'r anhwylder sydd wedi bod arno dros yr wythnos neu ddwy diwethaf yma.]

Cytunwyd y dylid, yn absenoldeb y casgliadau bwyd misol, gyflwyno cyfraniad ariannol i Fanc Bwyd Caerdydd i sicrhau parhad cefnogaeth Bethlehem i'r elusen yn ystod y cyfnod presennol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, er nad oes unrhyw eglurder hyd yma ar ail-gydied mewn addoli o fewn muriau'r capel, cytunwyd y byddai'n rhaid sicrhau bod yr adeilad a'r cyfarpar yn lân ac yn saff at ein defnydd (i gynnwys darpariaeth hylif glanhau dwylo), ac y gellid disgwyl newid yn nhrefn y gwasanaethau, megis y cymundeb, y canu, yr Ysgol Sul a'r cymdeithasu wedi'r oedfa. Hwyrach y byddid yn gorfod mabwysiadu trefn arbennig o fynd mewn ac allan o'r capel?

Mae'r Cwrdd Diaconiaid nesaf i'w gynnal ar fore Llun y 13eg o Orffennaf, eto ar "Zoom", a chofiwch os oes unrhywbeth y credwch y dylem neu y gallwn ei wneud i fod o gymorth penodol i chi, yna rhowch wybod i mi.

**Yn y cyfamser, "cadwn yn saff" yw'r gri o hyd!**

Mae yna ddadeni yn y diddordeb mewn byd natur ers y cyfnod clo yma yn does? Un o'r pethau ddysgis i leni oedd y gwahaniaeth rhwng y ddraenen ddu a'r ddraenen wen. Dwi'n gwybod, fel un a fagwyd mewn ardal o gefn gwlad cymharol, y dylsw'n i fod wedi gwybod hyn yn barod. Ond doeddwn i ddim. Wyddwn i ddim pa un oedd yn blodeuo gynta, be oedd y gwahaniaeth rhyngddyn nhw, pa ffrwyth oedd ar ba un, pa un oedd yn dda am wneud ffon ac yn y blaen.

Dwi'n dod o deulu ffermio ar y ddwy ochor ac mae gen i frith go o nhad neu f'ewythrod yn dyfynnu rhyw gwpledi ynglŷn â phryd i hau oedd yn cynnwys cyfeirio at y drain yn blodeuo. Roedden nhw'n glynu yn ddeddfol at gyngor y farddoniaeth. Ond do'n i ddim yn saff p'run ai'r wen neu'r ddu oedden nhw'n feddwl.

Ar ôl cryn ymchwilio felly (dau funud, Wikipedia Cymraeg!) mi gês fy ngoleuo.

***Pan flodeua'r ddraenen wen  
Y mae tymor rhew ar ben.***

A dyma un arall :

***Pan y gwelych ddraenen wen  
A gwallt ei phen yn gwynnu,  
Mae hi'n gynnes dan ei gwraidd  
Hau dy haidd os mynni.***

Felly y ddraenen wen yw'r un sy'n dweud wrthy ch bod hi'n ddiogel i chi hau ac nad oes tebygrwydd i chi gal nosweithiau rhewllyd i ddifetha'r cnwd. Y ddraenen ddu sy'n blodeuo gynta ac eirin tagu, neu eirin duon bach i Ddeheuwr, ydi'r ffrwyth arni.

Dyma bennill sy'n cyfeirio at y ddwy :

***Pan fo'r ddraenen ddu yn wych  
Hau dy had os bydd yn sych.  
Pan fo'r ddraenen wen yn wych  
Hau dy had boed wlyb neu sych.***

Ym mis Mai mae'r ddraenen wen yn ei gogoniant ac mi oedd hi'n orchestol eleni.

Un o'm hoff englynion i ydi englyn am y ddraenen wen ac mae yna gefndir difyr iddo. Ond dyma ei ddyfynnu i ddechrau:

***Y Ddraenen Wen***

***Hardd lances yn ei thresi – a gwenwisg  
Y gwanwyn amdani,  
Ionawr chwyrn, hen wrach yw hi  
Hir ei dannedd ar dwyni.***

Dwi'n hoff o'r ddwy ddelwedd wrthygyferbyniol, y briodasferch a'r wrach. Os ces i'r stori'n iawn, mae'n debyg mai englyn gafodd ei anfon i gystadleuaeth Steddfod Y Bala 1967 ydi o. Ond penderfynodd y beirniad nad oedd neb yn deilwng. Does gen i ddim copi o Gyfansoddiadau '67 a wn i ddim a lwyddwyd i olrhain enw'r awdur. Her felly i ddarllenwyr llengar Gair bach Bethlehem.

Yn ddiarnheuol mae yna ddiddordeb newydd wedi bod ym myd natur ers i ni fod dan glo. O'n i'n meddwl mod i'n gneud tipyn o orchest ar ôl dysgu enwau llond dwrn o flodau gwyllt nad oeddwn i'n nabod o'r blaen. Ond mi ddarllenais i rywle bod Mererid Hopwood wedi rhoi ar ei chof enwau Cymraeg 120 ohonyn nhw! Digon i wneud i chi guddio dan badell am y gweddill o'ch oes. Yn sicr wna i ddim brolio wrth neb eto mod i'n nabod y ganrhi goch, llaeth y gaseg a briallu Mair.

#### ***Ôl-nodyn y Golygydd:***

"Awel Mai" oedd ffugenw'r awdur a'r diweddar Eirian Davies oedd y beirniad. Hwn oedd yr unig englyn allan o'r 209 o gynigion ddyfynnwyd yn llawn ganddo yn ei feirniadaeth (ond yr adeg honno, y 3<sup>ydd</sup> llinell oedd "**Ionor gwyn hen wraig yw hi**"). Dywed y beirniad: "... mae'n siŵr mai 'dan ei thresi' a ddylai fod yn y llinell gyntaf. Hen drawiad yw 'gwenwisg' a 'gwanwyn'. Ansoddair rhad yw 'hardd'... Gyda gofid y cyhoeddaf nad oes neb yn deilwng o'r wobr."

Ond mae'n englyn sydd yn amlwg yn dal i gael ei gofio! A phwy oedd "Awel Mai"? Mae cyfrol Dafydd Islwyn ar yr englynion eisteddfodol yn datgelu mai'r Parchedig Roger Jones, Talybont, oedd y bardd.



Syr Francis Graham Smith. Ydy'r enw yn canu cloch? Oes yna rywun sy'n gwybod amdano heblaw fi? Oes? Nag oes?



Wel, tua thair wythnos yn ôl fe ddarllenais yn y 'Telegraph' fod y gwr bonheddig hwn yn dathlu ei benblwydd yn 97 oed. Sut y gwn i amdano fo?

Yn ôl yn saithdegau'r ganrif ddiwetha' roedd gan Graham Smith a'i wraig, Elizabeth, dŷ haf yn Rhosgadfan. O Macclesfield roedden nhw'n dod. Ar eu ffordd o gwmpas y pentre fe aethant heibio ein tŷ ni a chael sgwrs efo fy Nhad. Dyna ddechrau ar gyfeillgarwch a barodd am dipyn o flynyddoedd. Bob tro 'roedden nhw yn Rhosgadfan 'roedden nhw'n galw ac yn cael croeso gan fy Mam a 'Nhad.



Enw eu bwthyn oedd 'Nant Bach'.

*Bwthyn heb fawr o bethau - fu'n nef gynt  
I fy Nain a minnau.*

*A brwyn o gors y bryniau  
Yno'n do i ni ein dau.*

Erbyn hyn roedd fy Nhad yn cadw llygad ar y lle, cadw'r gorriad a chael gadael ei ddefaid yn y cae o flaen y tŷ. Mae 'Nant Bach' wrth droed mynydd Moeltryfan, y chwarel ble dechreuodd fy Nhad weithio yn bedair ar ddeg oed.

Roedd Capel Hermon, Moeltryfan, yn agos. Chwalwyd yr adeilad hwnnw.

**HERMON (1862 – 1996)**

*Y 'Foel' wedi'i ddadfeilio - sy'n aros  
yn awr, ond wrth wrando*

*yn iawn, mae Hermon heno*

*fan hyn yn canu'n y co' (Mei Mac)*

Ym 1982 fe welodd fy rhieni ar y teledu fod Graham Smith wedi'i anrhydeddu yn 'Astronomer Royal' sef 'Seryddwr Brenhinol' – 1982- 1990. Meddylwch! Ni soniodd erioed am ei waith yng Nghaergrawnt a Jodrell Bank!

Roedd yn ŵr hollol serchus, dymunol a diymhongar.

Ymhen amser daeth eu hymweliadau â Rhosgadfan i ben ond daeth eu mab, Martin, a'i deulu yno – hwythau hefyd yn derbyn croeso yn ein cartref ni.

"Ceramicist' oedd ei briod, Elisabeth. Mae gen i 'jwg' o'i gwaith a roddodd hi'n anrheg i Mam. Arni mae ei nod "ES" yn y crochenwaith.

Gwerthwyd y bwthyn ac aethant adre'n ôl. Roedd gadael Rhosgadfan yn brofiad eithaf trist - 'Tell me about it!'



(uchod) Rhosgadfan drwy lygaid yr arlunydd Donald McIntyre



(dde) Nod Elisabeth Smith, y grochenwraig, ar y jwg

Diolch i Elen Lewis am ei chyfraniad (*a phen-blwydd hapus iddi hithau yn gynharach y mis hwn!*)

**Beth am gyfraniad gennych chithau?**

Peidiwch gadael i'r "lockdown" fynd heibio heb i chi ysgrifennu at eich cyd-aelodau!

**Y dyddiad nesaf i anelu amdano ydy**

**Mehefin 24.**

Anfonwch at Ifan Roberts – [tycnau@aol.com](mailto:tycnau@aol.com).



Rydw i ac Ifans bach Tregaron yn cyfnewid cylchgronau. Ma' fe'n derbyn Golwg ac mi rydw inne'n derbyn Barn – dau Gardi gofalus – mên (mean) meddai rhai. Na, na, gofalus yw pob Cardi – dim gwastraffu. Ond fel y dwedodd Ifor Owen Evans, o dîm Crannog, ar Y Talwrn 'slawer dydd:

*Er mod i'n ffrind i'r geiniog  
Wy ddim yn fên ytôl  
Ond pan rwy'n bwrw 'mara  
Rwy'n disgwyl sandweij nôl.*



Fe fyddai'n derbyn rhyw dri neu bedwar rhifyn oddi wrth John bob hyn a hyn, yntau'n cael un yn ôl. Dyna falle sydd i gyfrif mod i ar ei hôl hi gyda'r sylw nesa' yma. Darllen yr oeddwn i yn Golwg pa ddydd am y bardd Elin ap Hywel, sydd â dementia druan. Mae ganddi gerdd "Cyn Oeri'r Gwaed", sy'n cyfeirio at y cof ac yn gorffen fel hyn:

*"...a chyn troi fy mhoen  
yn gyfres o sylwadau  
sy'n araf gollu'u lliw  
ar ymylon tudalen frau fy nghof."*

ac mae'r cyfeiriad yne at freuder y cof yn sicr yn denu'r "O" ffactor ynddo i. Beth yw hwnnw, glywa'i chi'n gofyn? Wel bydd rheina ohonoch chi sy'n ddigon hen i gofio Gerallt (Lloyd Owen) yn Meuryna ar y Talwrn yn cofio fel byddai'r Meuryn yn mynegi'r "O" hir, a'r ysgwyd pen, pan fydde llinell, cwpled neu englyn wedi ei blesio'n fawr.

Nawr, mae'n siŵr mai'r gair Cymraeg am hynna yw "ebychiad", ac eto mae e'n fwy na hynny rywsut. Sut mae e'n cyfieithu 'te – "expletive" ie, ond rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r term yna hefyd. Er ei fod e'n swnio'n addysgiadol iawn rywsut e.e. "... heddi rwy'n ysgrifennu am ebychiadau", ond, "heddi, rwy'n ysgrifennu am 'expletives'". Falle bydd ambell un hyd yn oed yn gorfod troi at y geiriadur!

Ta waeth, rhwng y dyfyniad trist gampus yna o farddoniaeth a'r term 'ebychiad' y llithrodd y ddau air bach yma nôl i'r cof.

Roedd yna dri brawd yn byw yn Trisant, y pentref agosaf at y Brij (Pontarfynach) - Meirion, Cledwyn a Sam, a dyna i chi dri chanwr soniarus. Mi oedd yna hen goel pan ow'n i'n ifanc, fel hyn. Pan fydde rhywun lleol yn cael ei gladdu, nad oedd e fawr o angladd os nad oedd bois Nantgwyn wedi taro "O Fryniau Caersalem" ar lan y bedd. Gyda llaw, tad, nage wir, ti'n mynd yn hen gwd boi, Tadcu Ifan Jones Evans, y darlledwr, a'i frawd Robin Lyn, y canwr, oedd Cledwyn.

Ond Sam gaiff fod yn gwmni i ni heddi. A dyma ddod at yr ebychiad – dau air mawr ac aml Sam oedd "Wel o" neu "Wel o, Wel o" a weithiau "Wel o, Wel o, Wel o" – hynny mewn ymatebiad i ryw sefyllfa neu gilydd.

Ond mi 'roedd yna dipyn mwy iddi na hynny – ac mi fuodd hi bron iawn a mynd yn nos arna'i gyda'r ysgrifennu hwn, a dwi ddim yn siŵr o hyd, ydi'r pin ar bapur yn gwneud cyfiawnder â'r sefyllfa; bod y dweud yn bwysicach na'r ysgrifen, os nad yn anhepgor. Mae'n cynnwys holl elfennau llefaru da, graenus er mwyn i chi werthfawrogi'r dweud ac mi roedd Sam yn berchen ar y cyfan, llais da a chlir, tempo addas, pryd i gyflymu neu arafu, pwyslais cywir a rhyw nod neu ddau gyda'r pen efallai.

Mi fyddai amler y ddau air yn dibynnu'n hollol ar y sefyllfa. Os mai rhywbeth bach syml di-nod oedd dan sylw, yna byddai unwaith yn ddigon, rhyw basio heibio yn ddi-ffrwt. Yna sefyllfa ychydig yn fwy rhyfeddol, aruthr a hynod, ac fe gaech chi yr ymatebiad ddwy waith, ac os oedd pethe yn dra syfrdanol neu'n peri hurtrwydd – wel dim ond tair gwaith fase'n mynegi'r teimlad cywir.

Mi roedd yn rhaid cael y llais hefyd wrth gwrs – fe fues i'n ddigon ffodus rai blynyddoedd yn ôl bellach, o gael "credit" fel y 'LLAIS' ar ddiwedd cyfres i raglenni teledu S4C – "Twrio" - y rhaglen dreiddgar honno ar hanes a gwerthu hen bethau (*antiques*) gan y cynhyrhydd John Watkin (Radur gynt). Mi ges i sioc ofnadwy rhyw ddiwrnod, pan glywais i rhywun yn gweiddi tu ôl i mi "Y Llais, arhoswch, y Llais" Pwy oedd yna ond Pennaeth y Sianel, Geraint Stanley Jones a chafwyd sgwrs hwyliog.

Ond yn ôl at Sam. Nawr doedd dim gradd gyda Sam yn yr hen iaith, mwy na finne – a falle, dim ond falle, fod ei eirfa fe'n brin ond yn sicr roedd ei eiriau e'n fynych. Fe alle'ch cadw chi am hydoedd gyda'i sgwrsio difyr gyda sawl "Wel O" yn y canol – "nid wrth eu geirfa luosog yr adnabyddir hwynt". Do, mi wnaeth Sam ddefnydd teilwng o ddau air ac mae wedi creu hen ysfa gellweirus arnai i ffonio'r Golygydd gweithgar i ddweud wrth Ifan fy mod i, y tro nesa, yn mynd i ysgrifennu ar "Edifeirwch y Duwdod, athrawiaeth yr lawn a balchder y pechod gwreiddiol, jyst i gael clywed ei ymateb e. Wi'n gw'bod beth fydde ymateb yr hen Sam – "... "..." "...", o leiaf dair gwaith.

Rydw i'n ei chael hi'n anodd dod i nabod person heb eu cyfarfod wyneb i wyneb. Mae Zoom, Skype ac eraill yn help i gyfathrebu, ond dwi'n dipyn o ddiinosor pan ddaw hi yn fater o gynnal cyfarfodydd, neu ymgynghori gyda doctor, neu athro neu'r gyfraith drwy'r llwyfannau cymdeithasol 'ma. Rhaid i mi gael edrych i fyw llygad person cyn dechrau dod i'w nabod. Oherwydd bod hi mor hawdd gwybod am bawb a phopeth y dyddiau hyn, mae rhywun mewn perygl o ddod i farn am yr unigolyn heb fynd drwy unrhyw ymdrech neu'r drafferth o drefnu cyfarfod gyda'r person ei hun.

Doedd 'na fawr o waith trefnu cyfarfod dau o unigolion mwyaf dylanwadol y ganrif ddiwethaf. Moscow oedd y gyrchfan, a minnau yn fyfyrwr ar ysgoloriaeth yn y Sofiet. Cofrestru fy mhresenoldeb yn llysgenhadaeth Prydain Fawr ac yn sydyn daeth gwahoddiad yn dod i fynd i'r Bolshoi i wyllo y ballet Swan Lake.

"Sut mae hyn y gweithio", gofynnais i'm cyd Gymro oedd yn "attaché milwrol" yn y llysgenhadaeth ysblennydd ger yr afon Moskva.

"Maen nhw'n gwahodd er mwyn cadw llygad arnat ti", oedd yr ateb syml. "Dyna un peth y bydd gofyn i ti gynefino â fo yma yn y Sofiet. Bydd rhywun yn dy ddilyn i bobman".

Mae theatr y Bolshoi yn dŷ opera crand, wel y gorau weles i erioed, a dwi wedi bod yn y Met yn Efrog Newydd, Covent Garden yn Llundain a La Scala, Milan. Doedd dim posibil anwybyddu prydferthwch yr adeilad, ond beth a'm synnodd oedd natur y gynulleidfa. Mi roedd 'na grachach yn y bocsys, a hynny yn benna oherwydd, ar wahân i fi, yr ymwelydd pwysig arall oedd Arlywydd Pakistan, yr Ayub Khan. Ond ar lawr y theatr, gwerin gwlad oedd yno i ryfeddu at y dawnsio a'r gerddoriaeth. Gweithwyr cyffredin, o leia yn ôl eu gwsg, yn deuluoedd, plant yn ogystal, heb unrhyw rwysg na ffws. Tocyn am bron ddim ges i, a dyna oedd plant ac oedolion yn ei dderbyn hefyd.



Drannoeth dyma ddeffro yn neuadd y myfyrwyr a darganfod amlen dan y drws. Gwahoddiad arall, i ymweld y tro hwn â'r Мавзолей. (*enw'r 'Mawsolëwm' mewn Rwsieg sef y lle roedd Lenin a Stalin yn gorwedd - wrth wal y Kremlin ar y Sgwâr Coch – llun chwith*)

Mae Sgwâr Coch y Kremlin yn faes anhygoel, digon o le i sawl cae rygbi, maes hirsgwar sydd hefyd dros y blynyddoedd wedi arddangos cryfder a maint y lluoedd milwrol comiwnyddol. Roedd 'na eira trwchus ar y cerrig crynion oedd yn wrthgyferbyniad gyda lliwiau coch muriau castell y Kremlin, sef Whitehall llywodraeth Rwsia fawr. Doedd fawr neb yn symud, o leia' yn y ciw hir oedd yn

ymestyn fel rhyw neidr enfawr ar draws ac ar hyd y sgwâr. Miloedd o unigolion yn aros yn amyneddgar tra'n ceisio llechu rhag yr oerfel.

"Ewch heibio'r rhesi o bobl" meddai'r gwahoddiad "ac anelwch ar eich union i ddrws y 'Мавзолей'. Bydd swyddog yno yn aros amdanoch". Teimlo yn embaras ac yn anghyfforddus wrth gerdded heibio pobl oedd yn amlwg wedi bod yn ciwio ers oriau. I mewn a fi, ac yno yn gorwedd roedd Stalin a Lenin ochr yn ochr. Llygaid Stalin ar agor, rhai Lenin ar gau, ac un o'i freichiau wedi pydru wedi i aer dorri drwy ddu'r arch. Dyma nhw yn gorwedd, y ddau derfysgwr laddodd filiynau o'u cyd-ddynion er mwyn sefydlu'r weriniaeth gomiwnyddol gynta yn hanes y byd. Doedd 'na neb arall yn y beddrod. Nhw a fi. Cerddais o gwmpas y ddau gan syllu'n fanwl ar wyneb gwelw Lenin, ond llygaid Stalin ddenodd y mwya' o sylw. Y llygaid "byw" ar mwstas coch. Llygaid oer. Llygaid cas. Syllais ar siâp ceg Lenin, oedd yn hanner agored, a gên Stalin, oedd yn sgwâr ac yn gadarn, Y ddau wedi eu gwsgo yn nillad y chwyldro.

Dyma sŵn rhywun y dod. Roedd hi'n amser gadael. Wrth i mi gerdded heibio'r milwyr oedd yn newid gard, gan sythu y goes flaen fel rhyw acrobat, a throi ar eu sodle yr un pryd, dyma aros i wyllo y werin bobl yn llusgo eu traed drwy'r eira i dalu teyrnged i'w harwyr. Roeddwn i wedi astudio bywydau'r ddau nôl yn y Coleg ger y Lli. Roedd y miloedd oedd yn ciwio wedi byw eu bywydau dan ormes y ddau. Dysgais fwy am y ddeuddyn marw drwy wyllo y trueiniaid, yn hytrach na'r deg munud sydyn dreuliais i yng nghwmni Stalin a Lenin. Er bod y ddau yn gelain roedd eu gafael ar drigolion y Sofiet yr un mor ddeifiol ac erioed, a'r rheidwydd i'w gweld yr un mor obsesiynol a fy marn cyn hyn, bod rhaid dod wyneb i wyneb cyn nabod y gwrthrych. Doedd y ddau gorff yn ddim i mi, ond yn bopeth i'r eilunaddolwyr.




Lenin yn y Mawsolëwm



Dyma'r gyntaf mewn cyfres o ysgrifau byr ar bedwar llyfr cyntaf y Testament Newydd. Ysgrifennwyd pob un o'r llyfrau ddaeth maes o law i roi'r Testament Newydd yn ei ffurf bresennol rhwng 50-125 O.C. Ysgrifennwyd y llyfrau gan awduron gwahanol. Roedden nhw'i gyd yn credu bod Duw wedi gweithredu mewn modd newydd a heriol yn Iesu, ond maen nhw'n rhoi ei stamp eu hunain ar ddehongli hynny. Ychydig iawn gellid ei ddweud amdany'n nhw mewn unrhyw fywgraffiadur.



Doedd y blynyddoedd cynnar ar ôl marwolaeth Iesu ddim yn hawdd i'w ddilynwyr. Roedd gan y cymunedau o gredinwyr gwestiynau a phroblemau. Yn un peth roedd rhaid i'r Iddewon ddaeth yn ddilynwyr ystyried bywyd a marwolaeth Iesu yng nghyd-destun canrifoedd o hanes Israel o ddyddiau'r ecsodus o'r Aifft a'r cyfamod wnaeth Duw â nhw. Efallai eu bod nhw'n dilyn Iesu ond, ar y dechrau, pobl y synagog a'r Deml oedden nhw o hyd. Beth oedd perthynas y gymuned newydd yma o gredinwyr ag Iddewiaeth? A beth am y credinwyr newydd nad oedden nhw'n Iddewon? Roedd hyn a chwestiynau eraill yn codi, yn dylanwadu ar, ac yn cael ei adlewyrchu yn yr hyn a ysgrifennwyd gan awduron Y Testament Newydd, heb sôn am lawer llyfr arall na chafodd ei gynnwys, ond sydd wedi goroesi o'r cyfnod yna ac sy'n dal ar gael i'w darllen. Roedd angen esbonio a cheisio dehongli. A dyna pam, efallai, mae'n anodd i ni heddiw ddod o hyd i Iesu hanes yn yr Efengylau. Pedair efengyl, pedwar darlun, pedwar dehongliad. A thros y canrifoedd fe amlhawyd y dehongli drosodd a throsodd, a'r darluniau hefyd. Mae'n siŵr ein bod ni gyd wedi dychmygu sut un oedd Iesu i edrych arno. Cafodd y llun gwneud yma ei gynnig ychydig flynyddoedd yn ôl fel portread mwy realistig na gwaith arlunwyr mawr Ewrop, heb sôn am luniau Beibl y Plant a llyfrau'r ysgol Sul ers talwm.



"He comes to us as One unknown, without a name, as of old, by the lakeside, He came to those men who knew Him not. He speaks to us the same words: "Follow thou me!" and sets us to the tasks which He has to fulfil for our time. He commands. And to those who obey Him, whether they be wise or simple, He will reveal himself in the toils, the conflicts, the sufferings which they shall pass through in His fellowship, and, as an ineffable mystery, they shall learn in their own experience Who He is."  
(Albert Schweitzer, "The Quest for the Historical Jesus")

## Hanesion o Fethlehem drwy archif Tafod Elai

(gydag ymddiheuriadau, os ydy'r Golygydd yn dewis yr un pigion yr eildro! Bu'r cyfnod ynysu'n un hir!)

### Rhifyn Chwefror 1989

#### CAIB:

Ydym, 'rydym wedi dechre clwb ieuentid ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, o'r diwedd. Wedi'r holl gyfarfodydd, addewidion a chynghorion, fe gwrddom am y tro cynta' nos Sul 30ain o Hydref y llynedd, ac ar bob nos Sul oedd yn dilyn. Ar hyn o bryd mae gennym bymtheg o aelodau gyda'r rhan fwyaf yn dod bob nos Sul rhwng 6 a 7:15. Mae ffurf y noson yn newid o wythnos i wythnos, a'r cynnwys yn fwy amrywiol fyth gan ddibynnu ar bwy sydd wedi dod i helpu rhedeg y noson. Mor belled, 'rydym wedi gwyllo fidio, chwarae gêm fasnach, wedi trafod a dadlau, ymladd (!!), ceisio cynllunio logo ar gyfer CAIB (a all sefyll am Gymdeithas Annibynwyr Ifanc Bethlehem neu Clwb Anhygoel Ieuentid Bethlehem – neu nifer o bethe eraill, a dweud y gwir), ac wedi chware dwsine o gemau. Y penllanw oedd ein "parti" Nadolig pryd aethom i'r Wimpey yng Nghaerdydd i gael pryd o fwyd, ac yna ymlaen i'r Ganolfan Sglefrio (trueni nad ymunodd yr oedolion i mewn chwaith!).

Mae'r tymor yma wedi dechre'n dda yn barod, ac yr ydym yn edrych ymlaen at nifer fawr o nosweithiau hapus yng nghwmni'n gilydd. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi dod i'n helpu mor belled, ac estyn gwahoddiad i unrhyw aelod arall o'r capel sydd â syniade neu unrhyw gyfraniad i'w wneud i'r clwb. Fe fyddwn yn falch iawn o'ch cwmni chi.

#### Organ Newydd Bethlehem (1989):

Mae'r capel wedi prynu organ newydd ar ôl i'r hen un chwythu'i phlwc yn ddiweddar. Bu cyngerdd arbennig i godi arian at yr organ gyda Huw Tregelles Williams a Merched y Garth yn cyfrannu o'u dawn wfreiddiol. Noson gampus yn ôl y rhai oedd yno.

# ODLAU'R GARTH 1

(dwy dudalen y tro hwn!)

## Graffiti

(Swastica yn Grangetown)

Ni chredai neb y byddai'n dod.  
Fe gydia crwt yn llaw ei fam.  
A fydd pen draw? Does neb yn gwybod.

Dros Gymru fach daw hwrdd o gryndod  
wa'th rhai sy ddim yn becco dam.  
Ni chredai neb y byddai'n dod.

Pan lania eryr lleda cysgod.  
Cyfarfod brys sy'n gofyn pam.  
A fydd pen draw? Does neb yn gwybod.

Ar *Taro'r Post* mae'n destun trafod.  
Heb gysgu'r nos mae crwt di-nam.  
Ni chredai neb y byddai'n dod.

Fe ail-ddihunodd hen fwystfilod  
o'u trwmgwsg hir. A ddiffydd fflam?  
A fydd pen draw? Does neb yn gwybod.

Ai blip ar sgrin neu ddechrau cyfnod?  
Ar wal fe rytha croes sy'n gam.  
Ni chredai neb y byddai'n dod.  
A fydd pen draw? Does neb yn gwybod.

**Martin Huws**

& \* & \* & \* & \* & \* & \* & \* &

**Awydd anfon cyfraniad i'r rhifyn  
nesaf o "Gair bach Bethlehem"?**

*Ydych chi wedi darganfod hen lun, hen lyfr neu drysor?*

**Ewch ati nawr – ac anfon gair erbyn Mehefin 24**

**at: tycnau@aol.com**

**07761826977**

**Unwaith eto, diolch i bawb o'r cyfranwyr.**

## Y Môr

Deifio'n daer i'r dyfnderoedd  
Ar y "reef" - ac yno roedd  
Dwfe "down" a DVD,  
Hen doilet a dau 'deli',  
Tair olwyn, Tesco trolï,  
Esgyrn cath, a sgwarnog, ci  
Yno'n llwyd o dan y lli  
Yn eu beddau, 'di boddi.

Llanast o fagiau plastig,  
Ar y môr yn chwarae mig  
Yn y fan na ddylent fod.  
Hen dyrfa, byth yn darfod.  
Ac ar gyrion y tonnau,  
Olew brown yn ymyl brau  
Ar lawr, sydd yn awr yn nôd  
Mor hyll ar dywyll dywod.

Y 'sgotwr wrth y mwrin,  
Ei gri'n floesg a'i ddagrau'n flin,  
A ninnau'n trin, yn ein tro,  
Ei dirwedd mor ddi-daro.

**Rhys Powys**

& \* & \* & \* & \* & \* & \* & \* &

## Beddargraff Gwneuthurwr Clociau

Dadweindwyd peth o'i berfedd  
Wyth niwrnod cyn ei ddiwedd;  
Nid cocos gafwyd yn ei gyts  
Ond pendil, nyts ac allwedd.

## Myfyrdod wrth brynu modrwy

Dydw i ddim isio ymddangos yn gybydd!  
Wn i ddim pam roedd rhaid dod yma ytôl,  
Tasa hi wedi cytuno ar fodrwy fy Nain  
Ddaru'r wraig cynta' 'cw 'i hanfon yn ôl.

**(Rhigymwr llanw bylchau)**

## "Black Lives Matter"

Rhodri-Gwynn Jones

Daeth y newyddion am hiliaeth yn fy mhentref genedigol, Penygroes, yn Nyffryn Nantlle, a siom a gofid imi. A hyn, wrth reswm, yn sgil gorymdeithiau o gefnogaeth i'r ymgyrch a elwir yn "*Black Lives Matter*", wedi ei sbarduno gan farwolaeth gwr croenddu, George Floyd, yn yr Unol Daleithiau dan law (neu ben-glin) yr heddlu, a'r gwrth-brotest gan, yn ôl y sôn, ddilynwyr asgell dde yn Llundain oedd a'u bryd ar warchod cerfluniau "arwyr" gorffennol Prydain Fawr. Cefais fy atgoffa o'r hyn a glywais ar y radio yn 2016 ar ddiwedd cystadleuaeth tennis Wimbledon, pan y bu i Serena Williams, merch groenddu (gyda chyfenw Cymreig?) ennill prif deitl senglau'r merched am y seithfed tro yn yr *All England Club*, a'i 22ain teitl "*Grand Slam*", i ddod yn gyfartal a record Steffi Graf yn y "cyfnod agored" presennol. Fe adroddodd ddarn o farddoniaeth, o'r enw "*Still I Rise*", gan ei hoff awdur, y bardd a'r nofelydd croenddu Dr Maya Angelou (1928 – 2014). Yn ystod ei hoes 'roedd hi yn un o ymgyrchwyr mwyaf brwd ei chenhedlaeth dros iawnderau dynol yn yr Unol Daleithiau, a bu'n gweithio'n agos â Martin Luther King. (Fe gofiwn i'n cyn-weinidog yma ym Methlehem, y Parchedig T J Davies, gyhoeddi cyfrol deyrnged iddo yn 1969.)

Mae modd gwrandao ar Serena Williams yn adrodd y gerdd ar *YouTube* fel a ganlyn:-  
<https://www.youtube.com/watch?v=TZO08C5vL2A>

Gadawodd argraff ddofn arnaf byth ers hynny. Dyma sydd wedi fy ysgogi i gyfleu neges y gerdd yn Gymraeg a chyflwynaf hi i gynulleidfa Gair bach Bethlehem fel hyn:-

### "Eto fe godaf"

(*Aralleiriad o "Still I Rise" gan Maya Angelou*)

Fe all i fy anghofio mewn hanes  
Gyda'th gelwydd troëdig, sur.  
Fe all i fy sathru i'r union lwch  
Ond, fel llwch, fe godaf.

Gelli fy saethu gyda'th eiriau,  
Gelli fy anwybyddu gyda'th lygaid  
Gelli fy lladd gyda'th gasineb,  
Ond eto, fel awel, fe godaf.

Ydi fy nigywilydd-dra'n dy ddrysu?  
Pan wyt ti'n nghanol gofid?  
Oherwydd i'm cerddediad awgrymu fod gennyf  
Ffynhonnau olew yn fy stafell fyw.

Ydi fy rhywioldeb yn dy ddrysu?  
Ydio'n syndod i ti  
Fy mod yn dawnsio fel petai diemwntau  
Rhwyng fy nghluniau?

Yn union fel lleuadau a heuliau,  
A sicrwydd y llanwau,  
Yn union fel codi gobeithion,  
Eto fe godaf.

O gytiau gwarth hanes  
Fe godaf  
O'r gorffennol sydd wedi ei wreiddio a dolur  
Fe godaf  
'Rwyf yn gefnfor du, yn wyllt ac yn llydan  
Yn llifo ac ymchwyddo i gludo'r llanw.

Wyt ti eisiau fy ngweld wedi'm torri?  
A'm pen wedi ei blygu a'm llygaid yn bwl?  
A'm 'sgwyddau'n cwmpo fel dagrau,  
Wedi eu gwanhau gan lefain dwys?

Gan adael ar ôl nosweithiau o warchae ac ofn  
Fe godaf

Ydi fy nhraheusdra yn dy dramgwyddo?  
Paid a'i gymryd yn rhy bersonol  
Oherwydd fy mod yn chwerrthin fel petai  
mwyngloddiau aur  
Yn cael eu cloddio yn fy libart cefn.

I wawr sy'n grisial o glir  
Fe godaf  
Gan gyrchu'r anrhegion a roddwyd gan fy nghyndadau  
Myfi yw breuddwyd a gobaith y caethwas  
Fe godaf  
Fe godaf  
Fe godaf.

Troednodyn am liwiau Mynydd Y Garth

**Ydy', y mae hi'n glasu. Fe ddaeth eto haul ar fryn (a chawod neu ddwy hefyd!)**



Rhifyn 6 o'r "Gair bach"



Rhifyn 12 o'r "Gair bach"



Rhifyn 13 (heddiw) o'r "Gair bach"